# Sut i baratoi ar gyfer llifogydd

| | |
|---|---|
| **Amser a awgrymir ar gyfer y gweithgaredd** | **15 i 25 munud** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhannu awgrymiadau i annog dysgwyr i feddwl am yr hyn y bydden nhw'n ei wneud i baratoi ar gyfer llifogydd a'u hannog i fod yn barod ar gyfer llifogydd.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru a rhoi dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** | **Y Dyniaethau** | **Iechyd a Lles** |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | |

## Amcanion

**Bydd dysgwyr yn gallu:**

- Disgrifio camau posibl i'w cymryd cyn ac yn ystod llifogydd i helpu i gadw'u hunain, eraill a'u heiddo yn ddiogel.
- Trafod, didoli a chytuno ar yr hyn sy'n eitemau hanfodol ac yn eitemau defnyddiol ar gyfer eu pecyn llifogydd.
- Creu cynllun llifogydd sylfaenol ar gyfer eu lleoliad, cartref neu gymuned leol.

## Offer ac adnoddau a awgrymir

- Nodyn gwybodaeth - Beth ddylai fod yn eich pecyn llifogydd?
- Cardiau adnoddau - Beth ddylai fod yn eich pecyn llifogydd?
- Cardiau adnoddau - Sefydliadau sy'n gallu helpu gyda llifogydd

## Awgrymiadau i gwblhau'r gweithgaredd hwn

- Gallech chi ddechrau'r gweithgaredd hwn trwy ofyn i'ch dysgwyr a ydyn nhw erioed wedi profi digwyddiad llifogydd neu a ydyn nhw wedi gweld neu glywed straeon newyddion yn canolbwyntio ar lifogydd. A allan nhw feddwl beth allai achosi llifogydd? Gallech ofyn iddyn nhw ystyried a yw llifogydd yn digwydd oherwydd rhesymau naturiol neu weithgareddau pobl neu'r ddau? Er enghraifft, digwyddiadau tywydd eithafol ac adeiladu ar orlifdiroedd.
- A all eich dysgwyr feddwl am unrhyw sefydliadau y mae eu gwaith yn cynnwys ceisio atal llifogydd neu pwy sy'n ymwneud â helpu pobl yn ystod llifogydd? Mae yna nifer o asiantaethau ac awdurdodau sydd â chyfrifoldebau gwahanol. Bydd faint maen nhw'n cymryd rhan yn ystod llifogydd yn dibynnu ar faint ac effaith y llifogydd. A all eich dysgwyr ddidoli eu rolau a'u cyfrifoldebau yn gywir gan ddefnyddio ein Cardiau adnoddau - Sefydliadau sy'n gallu helpu gyda llifogydd? Neu, gallech eu herio i greu eu cardiau adnoddau eu hunain.
- Efallai yr hoffech chi egluro i'ch dysgwyr ei fod yn helpu i wybod beth yw'r perygl o lifogydd i'w cartref neu gymuned er mwyn paratoi ar gyfer llifogydd.

  Ydyn nhw'n gwybod pa mor agos yw eu cartref neu eu hysgol at ffynhonnell ddŵr? Gallen nhw amcangyfrif ac yna mynd ymlaen i ddefnyddio gwefannau fel MapDataCymru i fesur y pellter.

  A allan nhw ragweld beth allai'r perygl o lifogydd fod yn eu hardal? Cofiwch y gallai'r wybodaeth hon beri pryder, ond mae'n rhan bwysig o baratoi ar gyfer y gwaethaf. Os ydych chi'n meddwl ei bod yn briodol, gall eich dysgwyr ymchwilio i'w perygl llifogydd trwy fynd i'n gwefan. Gallai dysgwyr weld eu risg llifogydd yn ôl cod post neu ar fap.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn monitro Lefelau afonydd, glawiad a data môr i ddarparu rhagolygon llifogydd 24/7, gan alluogi CNC i gyhoeddi rhybuddion llifogydd ar draws llawer o Gymru. Gallai dysgwyr annog eu teuluoedd neu eu lleoliad i gofrestru i dderbyn rhybuddion llifogydd am ddim. Trwy gofrestru i dderbyn rhybuddion llifogydd, mae lleoliadau a chartrefi yn cael eu hysbysu trwy neges destun, galwad ffôn a/neu e-bost o rybuddion am eu lleoliad cyn gynted ag y cânt eu cyhoeddi. Dylai hyn roi amser i'r rhai yr effeithir arnynt baratoi.
- A all eich dysgwyr ystyried sut y gallent baratoi eu hunain a'u cartref ar gyfer llifogydd? Gallech redeg hyn fel senario ac esgus bod perygl o lifogydd arfordirol, afonol neu fflachlifoedd i ychwanegu cyd-destun.

  Gallech herio eich dysgwyr i ystyried a thrafod:

  - Sut fydden nhw'n gwybod bod disgwyl llifogydd?
  - Pa bethau fydden nhw eisiau eu hamddiffyn?
  - Ble gellid cadw eitemau gwerthfawr yn ddiogel?
  - A allai unrhyw un arall eu helpu i gael eu cartref/lleoliad yn barod?
  - Pa gamau allen nhw eu cymryd i fod yn barod am lifogydd? Er enghraifft, gallen nhw baratoi pecyn llifogydd, bag sy'n barod i'w fachu'n gyflym os byddan nhw byth yn cael rhybudd llifogydd. Mae pecyn llifogydd yn cynnwys eitemau hanfodol a defnyddiol a fyddai'n cadw teulu i fynd pe bai'n rhaid iddynt adael eu cartref ar fyr rybudd. Gallech ddefnyddio ein Cardiau adnoddau - Beth ddylai fod yn eich pecyn llifogydd? i gynorthwyo trafodaeth neu gallech roi amrywiaeth o wrthrychau go iawn i'ch dysgwyr i benderfynu beth ddylid ei gynnwys. A all eich dysgwyr gytuno ar yr hyn a fyddai'n hanfodol, yn ddefnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol, a pham? Unwaith y bydd y cardiau/eitemau wedi'u didoli, gallech chi ofyn i bob grŵp egluro eu dewisiadau i'r grŵp ehangach. Mae canllawiau ar yr hyn yr ydym yn ei gynghori y dylid ei gynnwys mewn pecyn llifogydd ar gael ar ein tudalen we 'Paratoi ar gyfer llifogydd'.
  - Ydyn nhw'n gallu gweld lle gallai dŵr fynd i mewn i'w cartref/lleoliad? Er enghraifft, trwy ffenestri a drysau, y system garthffosydd a chraciau yn y sylfeini.
  - Pa gamau allen nhw eu cymryd i geisio atal dŵr rhag mynd i mewn i'w cartref neu ysgol? Gallech eu herio i ymchwilio i fanteision ac anfanteision gwahanol gynhyrchion amddiffyn rhag llifogydd.
  - Beth fydden nhw'n ei wneud pe bai llifddwr yn mynd i mewn i'w cartref/lleoliad tra eu bod nhw'n bresennol?

- Sut allen nhw gadw eu hunain, eu ffrindiau a'u teulu yn ddiogel?
- At bwy mae eich dysgwyr yn meddwl y gallen nhw fynd i gael cymorth a chefnogaeth yn ystod llifogydd?
- A allen nhw wneud unrhyw beth i'w gwneud hi'n haws clirio dŵr ar ôl i'r llifogydd fynd?

## Rhagor o wybodaeth ac arweiniad

I gael rhagor o wybodaeth efallai y byddwch chi a'ch dysgwyr am edrych ar ein tudalennau 'Llifogydd' ar y we.

## Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol

- Sut allwch chi gadw eich hun ac eraill yn ddiogel yn ystod llifogydd?
- Pa gamau allech chi eu cymryd i amddiffyn eich cartref, ysgol neu gymuned?
- Pa eitemau personol fyddai'n hanfodol, yn ddefnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol pe bai llifogydd?
- Beth allech chi ei wneud i ddiogelu eitemau personol neu eitemau cartref pwysig?
- Â phwy allech chi gysylltu am gymorth a chyngor yn ystod llifogydd?
- Sut allwn ni leihau effeithiau llifogydd ar deuluoedd? Ar ysgolion? Ar gymunedau lleol?

## Awgrymiadau ar gyfer addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

- Dosbarthwch lai o gardiau adnoddau. Dywedwch wrth y dysgwyr faint o gardiau 'hanfodol' a chardiau 'ddim yn hanfodol' sydd. A allan nhw eu didoli yn gategorïau?
- Gan weithio mewn grwpiau, gallech chi ofyn i'ch dysgwyr roi'r cardiau mewn trefn diemwnt, gan flaenoriaethu'r gwrthrychau maen nhw'n teimlo sydd bwysicaf.
- Dosbarthwch 10 cerdyn gwag a heriwch eich dysgwyr i ysgrifennu eitemau maen nhw'n eu hystyried yn bwysig i'w cynnwys yn eu pecyn llifogydd.
- Pa wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn cynllun llifogydd?

## Awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd dilynol/estyniad

- Cynllun gweithgaredd - Peryglon llifddwr
- Cynllun gweithgaredd - Ysgrifennu cynllun llifogydd
- Cynllun gweithgaredd - Effeithiau llifogydd

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government